

Plwraliaeth y cyfryngau a newyddion ar-lein

Dogfen drafod



Trosolwg

Mae gan y DU dirwedd cyfryngau newyddion o ansawdd uchel a chyfoethog o amrywiol. Mae wedi'i hangori gan newyddion dibynadwy, cywir a diduedd gan ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a'i chryfhau gan draddodiad cryf o newyddiaduraeth ymchwiliol dreiddgar a sylwebaeth graff gan gyhoeddwyr newyddion ar draws pob math o gyfryngau. Wedi'i alluogi gan dechnoleg newydd rydym hefyd wedi gweld chwaraewyr newydd yn dod i'r amlwg a brandiau newyddion uchel eu parch yn addasu a datblygu eu modelau busnes.

Wedi'i gefnogi gan gyfundrefn plwraliaeth y cyfryngau, mae hyn yn golygu bod gan bawb y cyfle i gyrchu ystod eang o safbwyntiau o amrywiaeth o ffynonellau gwahanol ac nad oes gan unrhyw berchennog unigol neu lais y cyfryngau ormod o ddylanwad dros farn gyhoeddus a'r agenda wleidyddol. Dyma'r gonglfaen i gymdeithas ddemocrataidd sy'n gweithredu'n dda.

Er hynny, ymhen bron i ugain mlynedd ers i fframwaith plwraliaeth y cyfryngau'r DU gael ei ddiweddarau ddiwethaf mae'r ffordd yr ydym yn cael gafael ar newyddion wedi newid yn ddramatig. Yn 2005 dim ond chwarter y bobl oedd yn chwilio am newyddion ar y we, yn 2022, mae dwy ran o dair yn gwneud hynny'n rheolaidd yn ôl ein [Harolwg Cael Gafael ar Newyddion](#). Mae'r newid hwn wedi rhoi mwy o allu i bobl gael mynediad at ystod o farn a safbwyntiau nag erioed o'r blaen.

Ond gall graddfa fawr yr opsiynau fod mor llethol ag y maent yn addysgiadol, gyda chynnwys dibynadwy yn ymladd am ofod a sylw ochr yn ochr â deunydd mwy cyffrogarol ac annibynadwy. Wrth i gyfryngwyr chwarae rôl porthmyn yn gynyddol, gan guradu neu argymhell cynnwys newyddion i gynulleidfaoedd ar-lein, nid yw'n glir bod pobl yn ymwybodol o'r dewisiadau sy'n cael eu gwneud ar eu rhan, na'u heffaith.

Er mwyn deall goblygiadau'r newidiadau hyn yn well, y llynedd fe ddechreuon ni raglen waith ar ddyfodol plwraliaeth y cyfryngau. Yn benodol, aethon ni ati i archwilio effeithiau posib y twf mewn newyddion ar-lein, a rôl cyfryngwyr ar-lein yn benodol, ar blwraliaeth y cyfryngau, a pha newidiadau rheoleiddio, os o gwbl, y gallai fod eu hangen i'w chynnal a'i sicrhau.

Mae'r ddogfen drafod hon yn nodi ein dealltwriaeth o sut mae cyfryngwyr ar-lein yn gweithredu o fewn ecosystem newyddion y DU ar hyn o bryd. Rydyn ni'n esbonio'r rôl maen nhw'n ei chwarae yn y gadwyn gwerth newyddion; yn archwilio'r risgiau posib y gallent eu hachosi a thrafod rhai opsiynau posib ar gyfer diwygio'r fframwaith rheoleiddio i helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plwraliaeth y cyfryngau yn y DU.

Dros y misoedd nesaf, gan adeiladu ar y cwestiynau rydyn ni'n eu gofyn drwy'r ddogfen hon, byddwn ni'n ymgysylltu â diwydiant a phartïon â diddordeb wrth i ni barhau i ddatblygu a chyfeirio ein ffordd o feddwl. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn i ddatblygu argymhellion dros newid ar gyfer Llywodraeth y DU erbyn 2024.

Ein canfyddiadau – yn gryno:

Mae cyfryngwyr ar-lein yn chwarae rôl arwyddocaol yn yr ecosystem newyddion

Er bod creu cynnwys newyddion yn parhau i ddibynnu ar gyhoeddwr a darlledwr papurau newydd, mae peiriannau chwilio, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau cydgrynhoi wedi ymgymryd â rôl gynyddol arwyddocaol mewn rhannau eraill o'r gadwyn gwerth newyddion gan gynnwys curadu, darganfod a gwneud elw o newyddion. Dengys ein hymchwil ddiweddaraf fod yn agos at ddau o bob tri oedolyn ar-lein yn y DU bellach yn defnyddio'r ffynonellau hyn.

Mae yna bryderon am effaith cyfryngwyr ar-lein, ac yn benodol llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, ar blwraliaeth y cyfryngau

Mae ein dadansoddiad hyd yma wedi nodi bod pobl sydd gan amlaf yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyrchu newyddion yn llai tebygol o nodi gwybodaeth ffeithiol bwysig yn gywir, yn teimlo'n fwy o antipathi tuag at bobl sydd â safbwyntiau gwleidyddol gwahanol iddynt ac yn ymddiried yn llai mewn sefydliadau democrataidd, na phobl sy'n defnyddio teledu a phapurau newydd gan amlaf fel ffynhonnell newyddion. Ni welsom fod y canlyniadau hyn yn gyffredinol yn gysylltiedig â defnyddio peiriannau chwilio neu gydgrynhoi newyddion, y mae'r ddau ohonynt yn cael eu ystyried gan ddefnyddwyr i ddarparu newyddion o ansawdd uwch a mwy cywir na'r cyfryngau cymdeithasol. Cefnogir ein canfyddiadau allweddol gan ymchwil a yr ymgwymerwyd â hi mewn rhannau eraill o'r byd.

Mae llawer nad ydym yn ei ddeall o hyd am sut mae defnyddio cyfryngwyr ar-lein yn effeithio ar ddefnyddwyr, gan gynnwys sut mae canlyniadau'n wahanol rhwng gwahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a, phan fydd gennym bryderon, beth yn union sy'n eu gyrru nhw. Byddwn yn ymgymryd â gwaith ymchwil pellach i ymchwilio i'r cwestiynau hyn.

Nid yw pobl bob amser yn glir ynghylch maint dylanwad cyfryngwyr ar-lein dros y newyddion y maent yn ei weld

Er bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r ystod o gynnwys newyddion y mae ganddynt fynediad ato ar-lein, nid ydynt yn aml yn ymwybodol pam fod rhai straeon yn cael eu gweini iddynt neu faint o bersonoli sy'n bosib dros gynnwys newyddion. Mae dros 90% o'r ymatebwyr yn cytuno ei bod yn bwysig y daw newyddion o ystod o sefydliadau gyda gwahanol bobl a barn, gan ddangos cefnogaeth dros egwyddorion plwraliaeth y cyfryngau, a cheir syndod a phryder nad yw'r rhan fwyaf o reolau plwraliaeth presennol yn berthnasol i gyfryngwyr.

Mae'n bosib y bydd angen offer rheoleiddio newydd i ddeall a mynd i'r afael ag effaith cyfryngwyr ar-lein ar blwraliaeth

Bydd ymagweddau traddodiadol at fesur plwraliaeth y cyfryngau'n mynd yn llai effeithiol wrth i'r rôl y mae cyfryngwyr yn ei chwarae fynd yn fwy arwyddocaol byth. Bydd angen i ni ddiwygio ein hymagwedd er mwyn sicrhau ein bod yn cael darlun mwy cywir o'r gwahanol ffynonellau y mae pobl yn eu defnyddio ar gyfer newyddion. Mae penderfyniadau am yr offer sydd ar gael i reoleiddwyr i ymdrin â phryderon am blwraliaeth y cyfryngau yn y DU yn fater i lywodraeth a senedd y DU yn y pen draw. Rôl Ofcom yw gwneud argymhellion i lywodraeth y DU i gyfeirio'r penderfyniadau hynny. Ein barn gychwynnol yw y gall fod achos dros rwymedïau newydd – gan gynnwys offer i ddarparu mwy o dryloywder dros y dewisiadau y mae cyfryngwyr yn eu gwneud ac i roi mwy o ddewis i bobl am y newyddion a welwn – er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i sicrhau manteision cyfryngau newyddion amrywiol a bywiog y DU. Byddwn yn gwneud argymhellion ffurfiol i Lywodraeth y Deyrnas Unedig erbyn 2024.